**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gynghrair Cefn Gwlad

political@countryside-alliance.org

20 Ebrill 2023

Annwyl Gynghrair Cefn Gwlad,

Diolch am eich negeseuon e-bost ynglŷn â'r ymgyrch Dywedwch NA wrth beilonau. Rydw i'n anfon ymateb atoch chi gan mai chi yw trefnydd yr ymgyrch, yn hytrach nag ymateb i bob e-bost unigol.

Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac o'r herwydd, nid wyf yn gallu gwneud unrhyw sylwadau am fanylion prosiect Green GEN Cymru. Rwyf, serch hynny, yn gallu amlinellu'n safbwynt polisi a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrth ddatblygwyr wrth iddynt gyflwyno prosiectau i fynd drwy'r broses gynllunio.

Yn ystod cyfnod lle mae'n argyfwng o ran y newid yn yr hinsawdd, mae angen inni sicrhau ein bod yn rhoi'r gorau i losgi tanwyddau ffosil a'n bod, yn lle hynny, yn harneisio'r potensial sydd gan Gymru i greu ynni adnewyddadwy er mwyn diwallu'n hanghenion ynni. Mae angen rhwydwaith trydan cryfach a mwy cadarn arnom hefyd er mwyn galluogi cymunedau ledled Cymru i fanteisio ar dechnolegau carbon isel fel pympiau gwres, paneli solar a cheir trydan, yn ogystal â chysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy â'r system. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae angen inni daro'r cydbwysedd cywir ac osgoi effeithiau annerbyniol.

Rydym yn cydnabod y gall cynigion ynni ac, yn benodol, y newidiadau i'r dirwedd sy'n deillio o gynigion o'r fath, fod yn ddadleuol a bod angen eu hystyried yn ofalus. Rôl ein system gynllunio yw sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd agored a thryloyw, yng nghyd-destun fframwaith polisi clir sy'n seiliedig ar gynllun a thrwy broses sy'n caniatáu i dystiolaeth berthnasol gael ei chyflwyno a'i hystyried gan y rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Lluniwyd y broses mewn ffordd sy'n caniatáu i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ystyried a yw datblygiad penodol yn briodol ai peidio ac a yw'n bodloni'r gofynion polisi.

Mae'n Polisi Cynllunio Cenedlaethol i'w weld yma. Mae'n amlinellu'r safbwynt a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar linellau pŵer newydd, gan ddweud y dylid, lle bo modd, eu gosod o dan y ddaear. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yn rhaid taro'r cydbwysedd cywir o ran costau os gallai'r costau dan sylw olygu na fyddai prosiectau a fyddai'n dderbyniol fel arall yn rhai hyfyw. Pan nad oes modd rhoi llinellau o dan y ddaear neu pan nad yw hynny'n berthnasol, dylid mynd ati i drafod â'r cwmnïau ynni a'r cyhoedd er mwyn lliniaru effaith weledol unrhyw linellau trawsyrru newydd posibl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn disgwyl i ddatblygwyr gynnwys pobl wrth iddynt ddatblygu prosiectau ac i wrando arnynt a gweithredu mewn ymateb i'w pryderon. Anogir datblygwyr i gysylltu a thrafod â chymunedau ar ddechrau prosiect er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fynegi barn yn gynnar yn y broses. Os caiff cais ei gyflwyno'n ffurfiol i Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW), mae'n statudol ofynnol i ymgynghori ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac i roi cyhoeddusrwydd i'r cynigion hynny er mwyn i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fedru cyflwyno sylwadau ffurfiol ar yr adeg briodol. Mae canllawiau ar y broses ar gyfer ymdrin â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i'w gweld ar wefan PEDW yma.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change